

80 Cwestiwn ac Ateb ar BLAID CYMRU

1 - PLAID CYMRU

1. Pa beth Yw Plaid Cymru?

Yr unig Blaid wleidyddol annibynnol Gymreig a fu erioed.

2. Pa bryd y ffurfiwyd hi?

Yn Awst, 1925, gan ddyrnaid o genedlaetholwyr a ddaeth ynghyd i'r pwrpas yn ystod Eisteddfod Genedlaethol Pwllheli.

3. Pa drefniadaeth sydd ganddi?

Dros ddau gant o Ganghennau, dau-ar-hugain o Bwyllgorau Rhanbarth a chant a hanner o ysgrifenyddion di-gangen.

4. A oes ganddi staff?

Oes. Cyfarwyddwr Cyllid a Chlerc yn Swyddfa Bangor, Sir Gaernafon a Threfnydd ac Ysgrifennydd, Trefnydd Merched, Trefnydd y De-Ddwyrain, a dau glerc yn y brif swyddfa yng Nghaerdydd.

5. A oes ganddi gyhoeddiadau?

Cyhoeddodd Y draig Goch yn fisol oddi ar 1926, a'r Welsh Nation yn fisol oddi ar 1932. Heblaw hyn cyhoeddodd ugeiniau lawer o lyfrau a phamffledi.

6. Beth yw rhif ei haelodaeth?

15,000 ym 1963, ac yn cynyddu'n gyflymach nag erioed.

7. Sut y rheolir hi?

Ei Chynhadledd, a gyfarfu yn flynyddol oddi ar 1926, yw ei chorff llywodraethol. Y mae ei Phwyllgor Gwaith, a etholir yn bennaf gan ei Phwyllgorau Rhanbarth a’r Gynhadledd, yn gyfrifol i’r Gynhadledd.

8. Sut y telir costau ei gwaith?

Trwy gyfraniadau ei haelodau a'i chefnogwyr, a thrwy'r cyfarfodydd a drefnant i wneud elw. Ar gyfraniadau i Gronfa Gwyl Ddewi y dibynna yn bennaf.

9. A dderbynia sybsidi o wlad neu gorff aral!?

Yr un ddimai. Y cenedlaetholwyr o Gymru a'i cynnal.

10. Beth oedd prif amcan ei sefydlu?

Achub Cymru, cenedl a oedd ar y goriwaered, a sicrhau iddi genedligrwydd cyflawn trwy adfer ei rhyddid cenedlaethol.

2 – HUNAN-LYWODRAETH

11. Paham hunan-lywodraeth i Gymru?

Am fod Cymru'n genedl.

12. Oni pharhaoedd yn genedl am ganrifoedd heb ei Llywodraeth ei hun?

Do, ond truenus o anghyflawn oedd ei bywyd, fel y gwelir o'i chymharu a chenhedloedd bach rhydd. Yn lle datblygu'n iach, y mae'n amlwg erbyn hyn, o ystyried nerth y dylanwadau Seisnig a dreiddia i bob rhan o'i bywyd, na fedr gynnal unrhyw lun ar fywyd cenedlaethol am hir eto oni chaiff ymreolaeth. I roi un enghraifft o'r dirywiad yn ei bywyd, dyma gyfran y Cymry a sieryd Gymraeg ers pan ymgorfforwyd Cymru yn Lloegr

1536 - ymron 100 Y cant
1800 - 80 y cant
1900 - 50 y cant
1951 - 29 y cant
1961 - 26 y cant

13. Pa ddrwg a wnaeth y Llywodraeth Seisnig i Gymru?

Pe buasai'r Llywodraeth Seisnig wedi gofalu am les Cymru ymhob dim, byddai'r hawl i hunan-lywodraeth a'r angen amdano yn aros; ond prin byth y meddyliodd am fodolaeth y genedl fach hon. Y drwg mwyaf a wnaeth oedd cadw Cymru'n ddieithr i'r datblygiad iach a welsai pe buasai'n rhydd. Drygodd ysbryd a chorff y genedl. Gwnaeth ei heithaf i ddiwreiddio'r Cymry o'u Cymreigrwydd, gan geisio gwneud Saeson neu Brydeinwyr ohonynt. Didolodd hwy oddi wrth eu gwerthoedd traddodiadol gan eu llusgo i'w himperialaeth ryfelgar. Chwalodd undod eu cymdeithas gan sugno ei nerth. Pan ddaeth dirwasgiad ar ôl rhyfel 1914-18 gadawodd Gymru yn ddiamddiffyn, gan drosglwyddo ei phobl i Loegr. Aeth 500,000 allan 0 Gymru yn y blynyddoedd rhwng y rhyfeloedd, gan ysigo bywyd y wlad trwyddi draw. Pe buasai Cymru'n rhydd, ni welsai fwy o'r drwg mawr hwn nag a welodd gwledydd bach eraill Ewrop.

14. A yw Plaid Cymru yn wrth-Seisnig?

Nid oes gelyniaeth rhwng cenedlaetholwyr Cymreig a phobl Lloegr. Sefyll dros Gymru yn hytrach nag yn erbyn cenedl arall yw gwaith y Blaid. Pan gaiff Cymru ryddid, edrychwn ymlaen at weld perthynas hapus rhwng y ddwy bobl. Y Llywodraeth Seisnig fel Llywodraeth ar Gymru a wrthwynebwn. Rhaid ei di-wreiddio o'n gwlad a rhoddi yn ei lle Lywodraeth Gymreig a fydd yn atebol i bobl Cymru.

15. A deflid pob Sais allan o Gymru pe ceid hunan-lywodraeth?

Nid oes le i unrhyw Sais sy'n byw yng Nghymru bryderu, ond gofynnwn iddo, a phawb arall a ddaw i fyw atom, barehu bywyd ac arferion y genedl y daeth i fyw i'w plith.

16. A fyddai'n rhaid i'r Cymry sy'n byw yn Lloegr ddychwelyd?

Na byddai, er y byddai gwaith i fwy ohonynt ddychwelyd iddo pe dymunent. Ni byddai unrhyw orfodaeth arnynt ddychwelyd.

17. A orfodid pob Sais i siarad Cymraeg?

Ni ellir ac ni cheisir gorfodi pobl mewn oed i ddysgu'r iaith. Ond wedi deffro balchder cenedlaethol iach gobeithir, trwy gyfundrefn addysg Gymreig, fagu'r genhedlaeth ifanc trwy'r wlad yn Gymry Cymraeg a ymhyfryda yn eu treftadaeth genedlaethol.

18. A all Cymru obeithio ennill ei rhyddid oddi wrth Loegr?

Mae'n sicr o lwyddo os tyf y mudiad cenedlaethol yn ddigon cryf. Polisi Lloegr, fel y'i datganwyd droeon yn ddiweddar, yw sicrhau hunan-lywodraeth gyfrifol i

bob cenedl oddi mewn i'w Hymerodraeth. Dilynodd y polisi mewn gwledydd Asiaidd, a gwledydd megis Nigeria a'r Traeth Aur yn yr Affrig. Ein gwaith ni yw gorfodi Lloegr i gydnabod bod Cymru yn genedl a chanddi'r un hawl i ryddid a phob cenedl arall.

19. Onid yw Cymru eisioes yn rhydd?

Ceisia rhai ddweud ei bod yn rhydd am ei bod yn anfon 36 Aelod Seneddol i Westminster. Rhydd hynny ran i Gymru yng nghyfundrefn gynrychioliadol Lloegr, ond ni rydd iddi ryddid cenedlaethol. Mae 625 0 Aelodau Seneddol yn Westminster, a'r mwyafrif helaeth ohonynt yn Saeson ; hwy, trwy'r pleidiau y perthynant iddynt, sy'n rheoli. Ni all Cymru sicrhau dim y mae ei angen arni, heb gydweithrediad Lloegr a'i Llywodraeth a'i Phleidiau. Nid oes gan Gymru ei hun y gallu i wneud dewis effeithiol, nac i gychwyn dim a ofyn am weithredu gwleidyddol a gwleidyddol ydyw'r gweithredoedd pwysicaf sy'n ymwneud a chymdeithas heddiw.

Nid oes ganddi gyfrifoldeb, felly, dros ei bywyd; nid yw'n rhydd. Dyma enghraifftiau allan o lawer :- Ceisiodd gael cydnabod ei hiaith yn iaith swyddogol yng Nghymru, ac er trefnu Deiseb fawr a chael hanner miliwn o enwau iddi, methodd. Gwrthwynebodd mwyafrif mawr ei Haelodau Seneddol orfodaeth filwrol ami yn adeg heddwch, ond gorfodwyd consgripsiwn arni yr un fath a phe bai yn eiddgar drosto. Pleidleisiodd mwyafrif ei phobl dros y Blaid Lafur, ond Llywodraeth Doriadd sydd arni. Pleidleisiodd 25 A.S. o Gymry yn erbyn Mesur Boddi Cwm Tryweryn. a dim un o'i blaid; ond fe'i pasiwyd gan Senedd Llundain. Nid yw gwlad werinol yn rhydd oni fwynha hunan-lywodraeth gyfrifol.

20. A welwch les mewn cael Ysgrifennydd Gwladol i Gymru?

Gallai sefydlu'r swydd hon brysuro datblygiad gwasanaeth sifil Cymreig, ac felly ychwanegu at ddatganoli gweinyddol. Dyna'r unig les o bwys a allai ddyfod trwyddo. Prin y byddai'n gwella dim ar lywodraeth Loegr yng Nghymru er i'r Ysgrifennydd gael lle yn y Cyfrin Gyngor. Gallai ddrygu effeithiolrwydd llywodraeth trwy arafu gweithredoedd angenrheidiol, canys byddai'n rhaid i benderfyniadau nifer dda o adrannau'r llywodraeth fynd trwy un gŵr.

Ni chyfrannai ddim tuag at hunan-lywodraeth; yn Llundain y safai pob gallu i ddeddfu gogyfer a Chymru. Yno y gwneid pob penderfyniad o bwys. A hunan-lywodraeth yw angen mawr Cymru. Serch hynny, am i'r awgrym o Ysgrifennydd Gwladol gael ei ddefnyddio ers 80 mlynedd i rwystro hunan-lywodraeth, y mae'n rhaid ei gael-er mwyn cael gwared arno.

21. Sut fyddai'r Gymru rydd yn ei hamddiffyn ei hun meen rhyfel?

Mater i Gymru ei benderfynu drosti ei hun yw hyn. Mae'n bosibl y dewisai y dull confensiynol, sef arfau rhyfel, er bod dewis gwahanol; ond y mae'n bur sicr na wariai gyfartaledd mor uchel o'i chyfoeth ar arfau ag y gwna Lloegr ymerodrol. Byddai ei sefyllfa yn debyg i eiddo gwledydd bychain eraill Gogledd Ewrop.

Heb faich ymerodraeth, gallai gymryd ei rhan yn y trefniadau amddiffyn a wna'r gwledydd rhydd mewn cydweithrediad a'i gilydd. Yr hyn sy'n hanfodol iddi yw penderfynu ar ei pholisi ei hun a meddu ar y gallu i ddewis newtraliaeth pe mynnai, yn hytrach na chael ei llusgo i bob rhyfel y bydd Lloegr ynddo.

22. A fyddai'n rhaid wrth filwyr ar y ffin rhwng Cymru a Lloegr, a thollau a thrwyddedau teithio?

Ni cheir dim milwyr ar y 3,000 o filltiroedd o ffin rhwng Canada ac U.D.A; ni bydd angen yr un rhwng Cymru a Lloegr. Nid oes angen taith-drwydded ("passport") i fynd a dod rhwng Iwerddon a Lloegr; ni byddai ei hangen rhwng Cymru a Lloegr. Pe bai'r Llywodraeth Gymreig am osod tollau ar rai nwyddau a ddeuai i mewn, er mwyn incwm neu i amddiffyn diwydiannau ifainc, byddai'r ychydig anhwylustod yn bris bach i'w dalu am fendithion rhyddid. Dangosodd Benelux fod modd cael y manteision heb godi tollbyrth na threisio rhyddid.

23. Beth yw eich agwedd at y syniad o Farchnad Gyffredin?

Yr ydym o blaid cyd-weithrediad agos rhwng gwahanol genhedloedd ond nid ydym am weld adeiladu blociau milwrol grymus ar batrwm America a Rwsia. O ymuno a Marchnad Gyffredin, rhaid i Gymru gael ei Llwyodraeth ei hun yn gyntaf er mwyn trafod y telerau a diogelu ei buddiannau ei hun.

3 - PLEIDIAU LLOEGR A CHYMRU

24. Paham nad ymddiriedwch y gwaith o ennill hunan-lywodraeth i'r hen Bleidiau?

Ni fedrai Pleidiau Seisnig wneud y gwaith a achubai Gymru, ac ni fynnant geisio o ddifrif. Rhaid i Gymru ei hachub ei hun trwy ei hymdrechion ei hun. I'r

amcan hwn, rhaid crynhoi i blaid genedlaethol yr egnion a'r grymusterau a weithia dros barhad Cymru'r genedl. Yng Nghymru eu hun, oddi mewn i gorff y genedl, y gorwedd pen trymaf y gwaith. Yno y mae deffro a chryfhau'r ewyllys i ryddid a brawf yn effeithiol. Gwaith enfawr yw adfer bywyd cenedl ac adeiladu gwladwriaeth iddi, a ffol yw meddwl y gellir ei gyflawni trwy osod rhyw bwynt Cymreig yng nghynffon rhaglen Plaid estronol.

25. Oni byddai'n decach galw'r hen Bleidiau yn rhai Prydeinig?

Pump y cant o boblogaeth Prydain a geir yng Nghymru. Y mae mwyafrif helaeth iawn y Blaid Doriaidd, y Blaid Lafur a'r Blaid Ryddfrydol yn Saeson. Mewn ymateb i amgylchiadau ac anghenion Seisnig y tyfasant, ac anghenion Lloegr heddiw a benderfyna eu polisi. Yn Lloegr y mae eu pencadlysoedd ac oddi yno rheolir hwy. A bywyd Lloegr y mae eu cydymdeimlad, amdano y mae eu gwybodaeth. Ni wyr rhan fwyaf eu haelodau a'u harweinwyr ond y nesaf peth i ddim am y genedl fach hon, ac ni chydymdeimlant a hi. Sefydliadau Seisnig ydynt.

Dibynna eu gafael ar barhad y Cymry i feddwl yn wleidyddol fel Saeson. Ni wna'r un sefydliad fwy na'r rhain i Seisnigo Cyrnru a'i gwneud, yn ddiwylliannol yn ogystal a gwleidyddol, yn rhan o Loegr.

26. Oni fynnai'r Pleidiau Seisnig hunan-lywodraeth i Gymru?

Bu ymreolaeth Gymreig ar raglen y Blaid Ryddfrydol, y Blaid Gomiwnyddol a'r Blaid Lafur. Ni wnaeth y Rhyddfrydwyr ddim yn ei gylch pan gawsant gyfle. Gan y Blaid Lafur y bu'r cyfle diweddaraf ond cyfyngodd hi ei sel dros hunan-lywodraeth i bobloedd yn Asia a'r Affrig. Am hanner canrif bu Cymry yn gweithio oddi mewn iddi hi, i'w chael i weithredu dros ymreolaeth i Gymru. Ei hateb terfynol oedd i'w Chynhadledd flynyddol yn Scarborough ym 1954 ymwrthod a phob mesur o hunan-lywodraeth i Gymru. Pan gafodd Cymry o'r Pleidiau hyn swyddi pwysig yn y Llywodraeth, ni ddefnyddiwyd eu cyfle i hyrwyddo buddiannau Cymru. Fel arall yn hollol, collodd Cymru eu gwasanaeth yn llwyrach fyth.

27. Oni byddai'n fwy effeithiol i'r Cymru weithio oddi mewn i Blaid Seisnig?

Dyna a wnaethpwyd yn y gorffennol ac ni chafwyd gronyn o lwyddiant. Ni chydnabyddwyd rhyddid gwlad erioed gan lywodraeth oni byddai gan y wlad honno fudiad cenedlaethol digon cryf i orfodi ei pharchu. Y ffordd i sicrhau Westminster a Whitehall nad oes angen newid y drefn yng Nghymru yw trwy gryfhau gafael y Pleidiau Seisnig arni.

28. A oes gwahaniaeth rhwng y Blaid Lafur Seisnig a phleidiau tebyg yn Nenmarc neu New Zealand a gaiff ganmoliaeth gennych?

Y mae pob plaid lafur yn y gwledydd bach hyn yn blaid genedlaethol a saif dros ryddid a lles ei chenedl ei hun, yn wahanol i'r Blaid Lafur yng Nghymru. Ymwrthodant a sosialaeth wladwriaethol ac y maent yn wrth-filitaraidd a gwrth-imperialaidd.

29. A fyddai Pleidiau eraill yn bod yn y Gymru Rydd?

Byddai. Y peth cyntaf fyddai cynnal etholiad cyffredinol er mwyn i'r wlad ddewis y blaid a fynnai i ffurfio'r Llywodraeth. Er ei fod yn debyg y parhâi'r Pleidiau presennol, mewn enw o leiaf, byddai pob un wrth reswm yn Blaid Gymreig a feddyliai am Gymru yn gyntaf ac a luniai ei pholisi er ei mwyn. Newidiai hyn lawer ar gymeriad y Pleidiau presennol. Heb Blaid Doriaidd fawr i'w chadw wrth ei gilydd, y mae'n debyg yr ymrannai'r Blaid Lafur yn ddwy neu dair plaid.

30. A fyddai Plaid Cymru yn parhau pe ceid hunan-lywodraeth?

Gwnai, gan fod ganddi bolisi cymdeithasol, economaidd a diwylliannol a ystyria yn angenrheidiol i lwyddiant cyflawn Cymru.

4 - DULLIAU ENNILL HUNAN-LYWODRAETH

31. Ped etholid aelodau o Blaid Cymru i Westminster, a aent yno?

Gwnaent, gan ddefnyddio pob cyfle i hyrwyddo buddiannau Cymru, a chan ddefnyddio'r Senedd fel llwyfan i ennill cefnogaeth i'w polisi. Ond byddent wedi ymrwymo i ymwrthod a phob swydd y gallai'r Llywodraeth Seisnig eu cynnig, gan fod aelod o Gymro a dderbynia swydd yn gwerthu ei ryddid i weithredu dros Gymru yn effeithiol.

32. Pa werth a fyddai mewn ethol un aelod a Genedlaetholwr i'r Senedd?

Cwestiwn tebyg a ofynnid pan gynigiai'r ymgeiswyr Llafur cyntaf, a phan etholwyd Keir Hardie dros Ferthyr Tydfil ym 1900, yr unig A.S. Llafur yn Westminster. Cafodd ei etholiad ddylanwad ar y Llywodraeth ac ar y mudiad

Llafur, a gellir disgwyl dylanwad deublyg tebyg pan etholir y cenedlaetholwr Cymreig cyntaf. Rhoddai galon newydd yn y Cymry a saif dros fywyd cyflawn i'w cenedl, a phrofai i'r Llywodraeth fod Cymru o ddifrif yn ei phenderfyniad i fod yn wlad rydd eto. Dealla'r Llywodraeth Seisnig yn dda arwyddion deffroad fel hyn ym mywyd cenhedloedd dan ei hawdurdod, a chant effaith amlwg ar ei pholisi.

33. A fyn Plaid Cymru sarnu gwaed i gyrraedd ei nod?

Ymwrthododd a dulliau treisgar. Gweithreda yn gyfansoddiadol gan geisio ennill cefnogaeth Cymru i'w pholisi. Myn ddefnyddio y galluoedd sydd eisoes yn nwylo'r Cymru, megis rhai y cynghorau lleol, a rhydd ymgeiswyr ar y maes mewn etholiadau seneddol. Amcana at ddeffro yng Nghymru yr ewyllys i fyw fel cenedl, gan gredu y dargenfydd Cymru ffordd i orfodi'r Llywodraeth Seisnig i'w chydnabod yn genedl pan fyddwn ni ein hunain yn argyhoeddiedig o gyfiawnder hyn. Medr cenedl benderfynol gyrraedd ei nôd heb dreisio personoliaeth neb o'i gwrthwynebwyr; ond dylai ei haelodau hi fod yn barod i ddioddef er ei mwyn.

34. A ddymuna'r Cymry hunan-lywodraeth?

Ni ddibynna hawl a dyletswydd cenedl i'w rheoli ei hun ar ddymuniad ei phobl mewn unrhyw un cyfnod yn ei hanes. Onid yw'r ewyllys i fod yn rhydd yn fyw mewn cenedl, rhaid ei deffro; os bu farw penderfyniad ei phobl i dderbyn cyfrifoldeb dros ei bywyd, rhaid ei adfer.

Y mae'r dymuniad am ymreolaeth yn gyffredinol yng Nghymru, ond ymhlith aelodau Plaid Cymru yn unig y mae'n benderfyniad cadarn. Pan drefnwydd Deiseb ym 1954-6 i osod hawl Cymru i'w senedd gerbron Ty'r Cyffredin, cymerwyd y Ddeiseb at tua 310,000 o bobl; o'r rhain, arwyddodd 240,000, sef 80 y cant. Ni ddewiswyd ardaloedd am eu bod yn gefnogol; aethpwyd lle yr oedd yn bosibl i'r gweithwyr fynd. Er enghraifft, cafwyd 34,000 0 enwau yng Nghwm Rhondda. Y casgliad teg yw bod tua 80 y cant o'r Cymry yn awyddus am weld Senedd Gymreig. Yr angen yw am droi'r awydd yn benderfyniad a fydd yn effeithiol yn boliticaidd.

35. A gafodd Plaid Cymru ddylanwad ar bolisi'r Llywodraeth Seisnig?

Caiff dyfyniad o waith un o'i gwrthwynebwyr ateb y cwestiwn hwn. Tori a fu'n A.S. Llafur hyd 1950 yw Mr. Ivor Bulmer Thomas, a dywed yn ei lyfr "The Party System in Great Britain":

> *"Bu Plaid Cymru yn ddylanwad mwy nerthol, a denodd rai o arweinwyr bywyd diwylliannol Cymru... Ni bu ymgyrchoedd penderfynol y cenedlaetholwyr Cymreig heb eu heffeithiau. Ni bu iddynt ennill seddau yn San Steffan, ond bu'n gyfrwng i orfodi'r hen bleidiau i gydnabod Cymru'n genedl ac i gynnig peirianwaith gwleidyddol cymwys* i *gydnabod hynny."*

Nid gormod yw dweud na byddai son am Gymru heddiw mewn gwleidyddiaeth oni bai am waith Plaid Cymru. Cafwyd Cyngor, Gweinidog i Gymru, a diwrnod mewn blwyddyn yn San Steffan; ond prif amcan taflu'r briwsion hyn oedd rhwystro twf y mudiad cenedlaethol, dyna a ddywed 'Political and Economic Planning', grwp o Arbenigwyr Seisnig.

5 - YR IAITH

36. Ai Cymraeg fyddai iaith y Senedd a'r Llysoedd?

Rhaid cydnabod sefyllfa Cymru heddiw; gan na fedr y mwyafrif siarad Cymraeg, byddai'r Saesneg yn aros yn iaith swyddogol a hawl i'w siarad yn y sefydliadau swyddogol. Ond cydnabyddid y Gymraeg hefyd yn iaith swyddogol, a hi fyddai'r iaith genedlaethol, gyda hawl i unrhyw Gymro a fynnai ei defnyddio wneud hynny mewn Senedd a llys barn.

37. A yw'n ymarferol cael mwy nag un iaith swyddogol?

Mewn amryw o wledydd y Gymanwlad ceir mwy nag un iaith swyddogol, megis yng Nghanada a De'r Affrig. Yn y Swisdir ceir pedair.

38. A ellir gobeithio Cymreigio Cymru o dan y drefn bresennol?

Lle bo'r ewyllys gellir gwneud llawer. Dyma dri pheth angenrheidiol yn y gyfundrefn addysg :- dysgu Cymraeg yn effeithiol fel ail iaith i'r plant di-Gymraeg, ynghyd a hanes, daearyddiaeth, alawon a dawnsiau Cymreig; cyflymu twf yr ysgolion cwbl Gymraeg, yn ysgolion gramadeg ac eilradd fodern yn ogystal a chynradd; a sefydlu Colegau Cymraeg, un yn y Brifysgol a Cholegau Hyfforddi i athrawon.

39. A ddefnyddir Saesneg gan Blaid Cymru?

Trwy'r Saesneg y gwneir rhan helaeth o'i gwaith yn y rhannau di-Gymraeg o Gymru, a chyhoeddir llawer o'i llenyddiaeth yn Saesneg. Ceisir cadw ei phrif sefydliadau - y Gynhadledd a'r Ysgol Haf - a'i chyfarfodydd

cenedlaethol yn ddwy-ieithog. Mae llawer o Saeson yn ogystal a Chymry di-Gymraeg yn aelodau o'r Blaid ; a gofala beidio byth a galw'r Cymry di-Gymraeg yn Saeson.

6 - CENEDLAETHOLDEB A CHYD-GENEDLAETHOLDEB

40. Pa beth yw prif nodwedd cenedlaetholdeb Cymreig?

Yr awydd i ddatblygu holl adnoddau'r gymdeithas Gymreig yn gyflawn, yn foesol, materol a meddyliol. Hyn a rydd y cyfle gorau i bob Cymro unigol fyw bywyd cyflawn.

41. Onid yw cenedlaetholdeb Cymreig yn gul?

Ei amcan yw rhyddhau Cymru fel y gall gymryd ei lle fel cenedl yng nghymdeithas y cenhedloedd rhyddion. Ehangu ei gorwelion a wna hynny. Heddiw y nodweddir ei bywyd gan gulni, a hithau'n dalaith ddinod mewn gwlad arall.

42. Onid cyd-genedlaetholdeb sydd ei eisiau, nid cenedlaetholdeb?

Nid yw'r naill yn cau allan y llall. Fel arall yn hollol : amod cyd genedlaetholdeb iach yw bod cenhedloedd y byd yn rhydd i gydweithredu. Heb ryddid ni all Cymru gydweithredu ag eraill na chyfrannu fel cenedl i'r bywyd cydwladol. Dymuniad y gwir gyd-genedlaetholwr yw gweld pob cenedl, a Chymru yn eu plith, yn rhydd i fyw ei bywyd ei hyn. Imperialaeth yw gelyn mawr cenedlaetholdeb, ac imperialydd yw'r sawl a fyn gadw Cymru'n gaeth.

43. A yw cenedlaetholdeb yn achosi rhyfeloedd ?

Diau iddo wneud yn y gorffennol, fel y gwnaeth Cristnogaeth. Ond ers cenedlaethau gwelsom Alluoedd Mawr yn dod i wrthdrawiad a'i gilydd wrth ddilyn polisiau imperialaidd, gan lusgo'r gwledydd bychain i'r rhyfeloedd a ddilynai. Gwleidyddiaeth grym y Galluoedd Mawr sy'n esgor ar ryfeloedd modern. Ni allai'r cenhedloedd bach ymhel a'r wleidyddiaeth hon hyd yn oed pe mynnent, a chefnogant yn eiddgar bob cais i sefydlu heddwch parhaol a chyfiawn. Yn y rhyfel diwethaf yr unig genhedloedd a lwyddodd i ymgadw'n newtral, gan leihau'r dinistr, oedd gwledydd bychain megis Iwerddon, Swisdir a Sweden. Nid oedd gan Gymru ddewis.

44. Onid yw cenedlaetholdeb yn rym peryglus a berthyn i'r oes a fu?

Y mae cenedlaetholdeb yn rym mawr bid siwr, ond ni pherthyn i'r gorffennol. Hwn heddiw yw'r gallu cymdeithasol mwyaf yn y byd, ac y mae'n gorwedd wrth wraidd y chwyldroad enfawr a effeithia yn fawr ar fywydau mil o filiynau o bobl. I'r rhain, bu'n gyfrwng rhyddid ac urddas a chyfleusterau newydd. Chwarddai pobloedd Ewrop ac Asia a'r Affrig, a'r byd oll mewn gwirionedd am ben y syniad mai grym ydyw a berthyn i'r oes a fu.

Gall fod yn rym peryglus, fel pob grym arall. Y mae dynion yn fodau peryglus ag ynddynt duedd ddofn at ddrygioni. Camddefnyddir y galluoedd a'r sefydliadau mwyaf llesol ganddynt.

and cymer cenedlaetholdeb liw bywyd y wlad. Penderfynir ei gymeriad gan hanes a thraddodiad a gwerthoedd pob cenedl ar wahân. Llunir natur cenedlaetholdeb Cymru gan y gwerthoedd a ymgorfforir yn nhraddodiad Cymru. Y maent yn wrthgloddiau a all gyfeirio'r grym mawr hwn i weithredoedd adeiladol a buddiol.

45. A fynnwch Falcaneiddio Prydain a'r byd?

Y mae "Balcaneiddio" yn un o'r sgrech-eiriau a deflir at y rhai a fyn weld pob cenedl yn rhydd. Ei awgrym yw mai drwg yw rhannu'r gwladwriaethau a gynnwys amryw genhedloedd, megis ymerodraethau Awstria-Hwngari a Thwrci (a gyhwysai rhyngddynt ran helaethaf y Balcanau) a Rwsia a Phrydain heddiw. Unedau grym fu'r rhain erioed - "Galluoedd Mawr" - a bydd y byd yn nes at sefydlogrwydd heddychlon a chyfiawn pan fydd pob cymdeithas hanesyddol a gynhwysant yn rhydd i fyw ei bywyd ei hun. Haws cael yr unedau bychain i gydweithio'n heddychlon a'i gilydd na'r gwladwriaethau mawr cryf-arfog.

Sylwn fod gan lawer gwlad nifer o lywodraethau o'i mewn. Mae bron pob un o wledydd y Gymanwlad yn ffederal eu cyfansoddiad. Yn yr U.D.A. mae gan bob Talaith ei senedd a'i llywodraeth. Hyd yn oed mewn gwlad mor fach a'r Swisdir, ceir 22 llywodraeth heblaw'r un ganolog. Ni sonnir byth am "falcaneiddio'r" gwledydd hyn.

46. Onid yw Cymru'n rhy fach i fod yn wlad rydd?

Y mae'n bosibl mai'r fantais fwyaf a fedd Cymru o safbwynt llywodraeth dda yw ei bod yn genedl fach. Mewn cenedl fach y mae'r problemau yn ddigon bach i'w hystyried yn fanwl a'u datrys. Gwledydd bach yw gwledydd mwyaf llwyddiannus Ewrop heddiw, a chyfrinach eu llwyddiant yw eu bod yn fach.

Mae 25 o genhedloedd llai na Chymru eisoes yn aelodau cyflawn o U.N.O.

47. A yw eich cenedlaetholdeb yn Gristnogol?

Ewyllys Duw i'r byd, fel y deallwn ef, yw i bob cymdeithas genedlaethol fyw ei bywyd ei hun yn llawn. Gwreiddir y genedl mor ddwfn yn y drefn hanesyddol nes y gallwn ddweud ei bod yn rhan o'r cynllun dwyfol. Y mae caethiwed gwleidyddol, wrth rwystro ei datblygiad, yn tlodi'r cyfraniad y bwriedir iddi roi i'w phobl ac i'r ddynoliaeth.

7 - PA FATH HUNAN-LYWODRAETH

48. Pa safle a fyn Plaid Cymru ei ennill i'r genedl Gymreig?

Datganwyd o'i chychwyn mai rhyddid, nid annibyniaeth, yw ei nod. Ymwrthododd a'r syniad o sofraniaeth genedlaethol fel peth anfoesol. Myn y radd honno o ryddid sy'n angenrheidiol i Gymru sicrhau amodau bywyd ei phobl. Gellir gwneud hynny heb dorri pob cysylltiad a Lloegr ac a'r Goron. Pan gydnabyddir rhyddid cyflawn i genedl oddi mewn i'r Gymanwlad fe'i gelwir yn Ddominiwn. Safle Dominiwn a fynnir i Gymru.

49. A yw Safle Dominiwn yn llyffetheirio cenedl?

Nid oes i'r safle hwnnw unrhyw rwymedigaeth na dderbynnir yn gwbl wirfoddol gan y wlad a'i fwynha. Y mae gwahaniaeth hanfodol rhwng y Gymanwlad a'r Ymerodraeth. Gwledydd caeth, dan iau Lloegr, yw ei Hymerodraeth. Cymdeithas o genhedloedd rhyddion a chydradd, a gydnebydd yn wirfoddol eu perthynas a'i gilydd, yw'r Gymanwlad. Wrth reswm nid cydraddoldeb gallu na chyfoeth sydd iddynt, eithr cydraddoldeb hawliau. Y mae gan bob un y gallu i chwarae ei rhan yn y bywyd cydwladol, i gydweithredu mewn sefydliadau rhyng-genedlaethol, a hefyd, os dymunant, i aros yn newtral mewn rhyfel.

50. A gydnabyddir y Goron?

Y Goron yw'r sumbol sy'n uno gwledydd y Gymanwlad yn anad dim. Pan fwynha Cymru safle Dominiwn, nid fel Brehines Lloegr y daw'r Frenhines i Gymru ond fel Brenhines Cymru, a chyngor Llywodraeth Cymru a dderbynnir ganddi. Byddai Cymru'n rhydd i newid y drefn fel y dymunai.

51. Oni byddai safle megis Gogledd Iwerddon yn fwy addas i Gymru?

Cydweithredodd Plaid Cymru ag eraill mewn mudiad i sicrhau i Gymru ar fyrder Senedd a feddai ar ychydig fwy o alluoedd nag sydd gan Ogledd Iwerddon. Ond ni ellir bodloni ar hyn oddieithr fel cam tuag at ryddid cyflawn. Rhan o Loegr yw Gogledd Iwerddon yn gyfansoddiadol er bod ganddi alluoedd deddfwriaethol pwysig a ddatganolwyd o Lundain. Bach yw ei gallu i ddilyn ei pholisi cymdeithasol ei hun; ychydig iawn o ymreolaeth ariannol sydd ganddi; ac ni fedd unrhyw reolaeth ar ei pherthynas a gwledydd eraill. Er y byddai Senedd debyg i'r Stormont yn gwneud lles enfawr i ragolygon Cymru, ni all y cenedlaetholwr o Gymro fodloni ami. Myn ef ryddid cyflawn i Gymru ei rheoli ei hun ac i chwarae ei rhan yn y bywyd cydwladol, gyda sedd mewn unrhyw Gymdeithas Cenhedloedd a ffurfir gan y cenhedloedd rhydd.

52. A fydd Mynwy yn y Gymru Rydd?

Bydd, wrth reswm. Bu Mynwy erioed yn rhan o Gymru, a rhan ohoni ydyw heddiw er gwaethaf yr ymadrodd di-ystyr 'Cymru a Mynwy'. Cododd peth dryswch am i'r Ddeddf Uno roddi'r Sir yng nghylchdaith Rhydychen i bwrpas gweinyddu'r gyfraith yn y llysoedd barn. Mater o hwylustod oedd hyn. Y run Ddeddf a roes Sir Gaer yng nghylchdaith Gogledd Cymru, ac am yr un rheswm. Ond ni ddaliodd neb fod hyn yn gwneud Sir Gaer yn rhan o Gymru. Y mae sir Islwyn - ac Aneurin Bevan - yn rhan bwysig o'r wlad a ymestyn o Fôn i Fynwy.

8 - SENEDD CYMRU

53. Ymha le lleolir y Senedd Gymreig?

Nid oes dref yng Nghymru a fedd ar hawliau amlwg i safle prifddinas ar bwys y ffaith ei bod yn ganolfan gweinyddol, yn Gymroaidd, yn gyfleus, yn gartref ein sefydliadau cenedlaethol, yn ymgeleddu ein llenorion, arlunwyr a phenseiri ac yn rhoddi arweiniad diwylliannol. Ni chafodd Cymru dref fel yna erioed. Yr hyn y mae'n rhaid wrtho ar hyn o bryd yw canolfan gweinyddol. Mewn un dref Gymreig yn unig y bu swyddfeydd Llywodraeth ers cenhedlaeth, ac y mae cyfleusterau i'w hymestyn; mewn un yn unig y mae gan y gwasanaethau sifil draddodiad a swyddfeydd amrywiol. Caerdydd yw honno. Wrth gydnabod Caerdydd fel canolfan gweinyddol, cydnabyddwn yr hyn sy'n ffaith. Bellach cydnabyddwyd hi gan y llywodraeth yn Brifddinas Cymru. Yno y mae'n rhaid i'r Senedd Gymreig gyfarfod, o leiaf i ddechrau. Wedi cael ymreolaeth gellir ail-ystyried y mater os bydd angen, a chan y bydd gan Gymru adnoddau Llywodraeth, bydd yn bosibl ystyried a ddylid adeiladu prifddinas newydd yng nghanol Cymru.

54. Pa sawl Tŷ a fydd yn y Senedd?

Dau Dy. Etholir aelodau'r Ty cyntaf - cant ohonynt dyweder i gynrychioli'r Siroedd, gydag o leiaf bedwar aelod o bob Sir. Gellid dewis aelodau'r ail Dŷ gan y Cynghorau Sir, Colegau'r Brifysgol, galwedigaethau, etc.; gofelid am gynrychiolaeth deg i'r taleithiau, a sicrheid gwasanaeth rhai a fedrai wneud cyfraniad arbennig o werthfawr i'r Ddeddwrfa.

55. A fyddai Senedd yn faich ar Gymru?

Offeryn angenrheidiol i ddatblygu gwlad ddemocrataidd, ac i'w galluogi i wisgo trefn o'i dewis ei hun, ydyw Senedd. Nid yw'n fwy o faich nag yw adenydd i'r ehedydd. Nid oes yr un wlad a enillodd y rhyddid hwn yn barod i'w ildio. Ni chwynai'r un ei fod yn faich; ac ymdrechai pob un i'r eithaf i'w amddiffyn. Yn y Swisdir, gwlad gymharol dlawd o brin bedair miliwn o boblogaeth, y mae Senedd ffederal ganolog a dwy ar hugain o Seneddau taleithol - 23 o Seneddau mewn gwlad sydd fawr fwy ei phoblogaeth na Chymru a llai ei hadnoddau naturiol. Ymhyfryda yn ei "beichiau" a chanmolir hi gan bob sylwedydd am iechyd ei gweriniaeth.

56. Gan fod Cymru mor ddi-brofiad, oni ddylid symud yn araf tuag at y nod?

Nid yw Cymru'n ddi-brofiad. Y mae'n hengenedl a gafodd ganrifoedd lawer o ryddid yn y gorffennol; ac yn ystod y cenedlaethau diwethaf cafodd brofiad helaeth o ddulliau gweriniaeth seneddol. Ystyrir ei phobl yn ddigon abl i gymryd rhan flaenllaw yng ngwaith Llywodraeth Lloegr a llawer gwlad arall. Mor wahanol oedd sefyllfa gwlad fel Ceylon pan gafodd ei rhyddid. Nid symud yn araf tuag at hunan-lywodraeth a wna Cymru ond peidio a symud o gwbl. Trafodwyd y mater er wyth-degau'r ganrif ddiwethaf, ond ni throsglwyddwyd mymryn o awdurdod deddfwriaethol o Lundain i Gymru yn y 70 mlynedd a aeth heibio, er bod degau o genhedloedd llai diwylliedig wedi cael rhyddid yn ystod y cyfnod hwnnw. Erbyn hyn y mae'n fater brys. Mae pob blwyddyn yn cyfrif, ac os oedir lawer yn hwy, ni bydd yma genedl Gymreig. Efallai mai dyna obaith y rhai a'n cynghora i symud yn araf.

57. Onid yw Cymru'n rhy an-unol i gael hunan-lywodraeth?

Y mae diffyg undeb mhob gwlad nad oes ganddi Lywodraeth. Llywodraeth yn anad dim sy'n uno gwlad trwy roi canolfan i'w hegnion a chyfeiriad iddynt. Cymerer ei Llywodraeth allan o Loegr neu unrhyw wlad arall, a gwelir hi yn syrthio i anundeb. Rhodder Llywodraeth i Gymru ac fe'i gwelir yn undod cadarn.

58. Oni byddai pobl Morgannwg a Mynwy yn ormesol o wrth Gymreig?

Cymry yw trigolion y siroedd poblog hyn, ac y mae'r rhan fwyaf ohonynt yn Gymry twymgalon mewn lJawer o bethau, er i gynifer ohonynt golli'r iaith. Ym Morgannwg y gwna yr Ysgolion Cymraeg arbennig y cynnydd mwyaf, gyda chefnogaeth y Pwyllgor Addysg. Pan geir senedd yn eu plith, ni allant beidio a meddwl yn nhermau Cymru. Dilynant waith eu Senedd o ddydd i ddydd; ymdeimlant o'r newydd a'u cyfrifoldeb drosti, ac fe'u ceir mor eiddigeddus dros ei llwyddiant a'i henw da a Chymry Cymraeg unrhyw Sir yn y wlad.

Y ffordd orau i ddyfnhau Cymreigrwydd pob rhan o'r wlad, gan gynnwys Morgannwg a Mynwy, yw trwy roddi cyfrifoldeb dros Gymru i'w phobl.

59. A oes gwelliannau y gellir eu sicrhau heb Senedd?

Mae angen taer am ddiwygio bywyd Cymru mewn llawer cyfeiriad. Heblaw'r pethau a nodwyd eisioes, dyma rai o'r pethau y ceisiodd Plaid Cymru eu sicrhau :- cyfundrefn addysg Gymreiciach, gydag ysgolion a cholegau Cymraeg; corfforaeth radio a theledu Gymreig; byrddau Cymreig i drafnidiaeth, trydan a glo; Undebau a Chyngres Lafur Cymreig; ffordd ganol, a hwylusach cyfleusterau teithio; Corfforaeth Ddatblygu a feddai ar alluoedd i ddatblygu Cymru fel uned yn economaidd. Ceisiodd gadw ei thir yn eiddo i Gymru a eheisiodd rwystro trosglwyddo ei gweithwyr o'u gwlad. Gweithiodd dros gael amrywiaeth helaethach o ddiwydiannau yng Nghymru, dros Gymreigio ei diwydiant ymwelwyr, a thros ddefnyddio ei hadnoddau eyfoethog yng Nghymru ei hun-megis dŵr Tryweryn.

Ond heb lywodraeth, ni ddaw ond ychydig o'r sefydliadau eraill sy'n adeiladu cenedl. Gan mai gwlad arall a lunia amodau bywyd Cymru, y mae'n rhaid protestio'n barhaus yn erbyn ei gweithredoedd niweidiol pan ddylem fod yn adeiladu ein bywyd ein hunain.

9 - ECONOMAIDD

60. Paham y mynnwch ryddid gwleidyddol pan yw llwyddiant economaidd gymaint pwysicach?

Rhyddid gwleidyddol yw'r llwybr i lwyddiant economaidd yng Nghymru. Pe bai ganddi ryddid, gallai ofalu yn well am ei bywyd eeonomaidd. Gwelodd ddioddefaint economaidd mawr yn ystod y genhedlaeth hon am nad oedd ganddi ryddid politicaidd. Collodd 500,000 o'i phobl mewn 20 mlynedd cyn y rhyfel. Ni ddigwyddasai hyn, ac ni welsai ddiweithdra mor enbyd, pe buasai ganddi ei Llywodraeth ei hun. Hyd yn oed yn nyddiau "cyflogaeth lawn" wedi'r rhyfel, bu diweithdra yng Nghymru ar gyfartaledd ddwywaith uwch nag yn Lloegr, a bu raid i 100,000 arall o'n pobl ymadael a Chymru i chwilio am waith rhwng 1945 a 1950 dan y Llywodraeth Lafur. Mae miloedd yn dal i fynd bob blwyddyn.

61. A fedrai gynnal ei safon byw dan hunan-lywodraeth?

Wrth edrych ar y ffeithiau, y mae'n deg casglu y gallai Llywodraeth Gymreig godi safon byw Cymru. Y mae ei hadnoddau yn ôl y pen o'r boblogaeth yn uwch na'r rhan fwyaf o wledydd y Gorllewin; ac fel gwlad fach byddai'n arbed llawer o gostau imperialaeth. O'i chymharu ag Iwerddon, Denmarc, Norwy, neu'r Swisdir, gwelir mor eithriadol o ffodus yw hi yn ei hadnoddau, ac mor anffodus yn ei sefyllfa wleidyddol.

62. Onid yw Cymru yn rhy ddibynnol ar Loegr yn economaidd iddi lwyddo fel gwlad rydd?

Y mae Lloegr a Chymru yn gyd-ddibynnol, Fel y mae'r gwledydd oll. Nid oes wlad yn y byd a all fod yn gwbl hunan-gynhaliol. Er ei fod yn iawn i amcanu at y mesur helaethaf o hunan-gynhaliaeth, gan osgoi dibyniaeth ormodol ar y fasnach allfor, rhith yw hunan-gynhaliaeth lwyr.

Yr amcan cywir i Gymru yw hunan-ddibyniaeth a'i gwna yn uned fywadwy. Bydd yn parhau yn farchnad i lawer o nwyddau Lloegr; ond tal amdanynt oll; ac iawn yw iddi geisio gwneud mwy ohonynt oddi mewn i'w ffiniau ei hun.

Fel y mae'n digwydd, y mae Lloegr yn fwy dibynnol ar Gymru nag yw Cymru ar Loegr. Dibynna rhannau cyfoethog canolbarth Lloegr ar adnoddau crai Cymru i gynnal gwaith eu diwydiannau. I Loegr yr â llawer o'n glo, haearn, dur, alcam, dŵr, trydan, llechi, liaeth - a'n pobl. Bydd galw parhaus am yr adnoddau hyn. Ceisiai Llywodraeth Gymreig ddatblygu'r fasnach rhwng y ddwy wlad, gan sicrhau amodau teg i Gymru. Mae'n debyg y byddai'r ddwy wlad am gytuno ar delerau masnach rhyngddynt fel gwnaeth gwledydd Benelux, ac fel y gwna gweldydd eraill Ewrop bellach yn eu Marchnad Gyffredin. Ond mae'n hanfodol i Gymru gael Llywodraeth i amddiffyn a hyrwyddo ei buddiannau.

Am fod Cymru yn llai dibynnol nag yw Lloegr ar fewnforio adnoddau crai, bydd ei sefyllfa economaidd, pan fo'n wlad rydd, yn gryfach nag eiddo Lloegr.

63. A oes ystadegau ariannol ar gael?

Dengys adroddiad Dr. Edward Nevin ar gyfrifon Cymru mai gwerth ei chynnyrch ym 1956 oedd £785,000,000. Gwerth cynnyrch Iwerddon, sy'n fwy na Chymru o ran maint a phoblogaeth, oedd £447,700,000.

64. Pa faint a dâl Cymru yn flynyddol i'r Trysorlys?

Ni cheisiodd y Llywodraeth roi gwybod inni, a dibynnem ar amcangyfrif o'r swm. Bellach y mae gennym ffigurau manwl yn Adroddiad Nevin am y naw mlynedd 1948-56. Fe'u cyhoeddwyd yn niwedd 1957 gan Wasg Prifysgol Cymru, a dyma'r ffigurau diweddaf sydd ar gael. Dyma'r symiau a dderbyniodd y Llywodraeth ganol mewn trethi o Gymry –

1948	1950	1952	1954	1956
£157 miliwn	£167 miliwn	£186 miliwn	£194 miliwn	£220 miliwn

A dyma gost Llywodraeth yng Nghymru (heb gynnwys cost arfau rhyfel a llôg y Ddyled Genedlaethol)

1948	1950	1952	1954	1956
£115 miliwn	£119 miliwn	£132 miliwn	£146 miliwn	£163 miliwn

Wedi talu holl gostau'r Llywodraeth, gwelir bod swm mawr iawn dros ben.

65. A fyddai cynghorau lieol Cymreig yn feth-dalwyr o dan hunan-lywodraeth?

Tal pob cyngor lleol am ran dda o'i waith trwy'r trethi lleol a godir ganddo. Ond dywedir gan rai na fedrai llywodraeth Gymreig dalu'r hyn a ddaw i'r awdurdodau lleol mewn grantiau o Lundain. Dyma'r sefyllfa :

Ym 1956, cyfanswm grantiau Llundain tuag at holl waith y cynghorau lleol - sy'n cynnwys addysg, ffyrdd, tai, carthffosydd dwr, gofal am blant a'r hen, iechyd (rhannol), gwasanaeth tan, goleuo a Grant Cydraddoli'r Trysorlys, etc.- oedd £39,000,000.

O ble deuai'r arian? Ym 1956, dyma rai o'r symiau a gasglwyd mewn trethi yng Nghymru

Treth dybaco ..	..	£34,000,000
Treth cwrw a gwin	..	£17,000,000
Treth Petrol. . . .	..	£16,000,000
Treth bwrcasu . .	..	£18,000,000
Treth incwm ..	..	£71,000,000
Treth ar elw a chyfalaf	..	£13,000,000

Y Cymry a dal am bob gwasanaeth a rydd y Llywodraeth Seisnig yng Nghymru, ac am lawer mwy.

66. A oes ffeithiau celyd a ddengys gyfoeth Cymru?

Dyma ychydig: er nad oes gan Gymru ond 5 % o boblogaeth Prydain, yr ydym yn cynhyrchu 12% o lo Prydain, 29% o ddur crai Prydain, 40% o'r Alwminiwm, 8 % o'r platiau dur, a 99% o'r Alcam. Mae'r rhan fwyaf o'r cynnyrch yma'n mynd i Loegr, a hefyd dros hanner ein llaeth (260,000,000 o alwyni bob blwyddyn) a dwy ran o dair o'r dwr a gronnir yng Nghymru (ac fe fydd y cyfar-taledd yn uwch o lawer cyn bo hir). Cynhyrchir cyfoeth mawr gan ein hamaethyddiaeth, a dug y diwydiant ymwelwyr dros £50,000,000 y flwyddyn i'r wlad.

67. Onid yw bywyd diwydiannol Cymru wedi ei ddatblygu'n dda?

Nac ydyw. Mae llawer gormod o bwyso ar y diwydiannau trymion. Dylai'r rhain fod yn sail i amrywiaeth fawr o ddiwydiannau eilradd yng Nghymru, ond Lloegr a gaiff y rheini gan mwyaf. Amcanai Llywodraeth Gymreig at ddatblygu trefn fwy cytbwys a sefydlog.

68. Oni wneir popeth a ellir i feithrin amaethyddiaeth Cymru heddiw?

Y mae cyflwr llawer o'r Gymru wledig, o ran cyfleusterau, yn warthus, ac ni wneir llawer i'w wella. Mae rhan fawr o'r tai yn wael, heb ddwr, trydan, carthffosydd, teleffonau na ffyrdd gweddol dda. Cedwir y Gymru wledig ymhell ar ôl yr oes. Gyda pholisi mentrus gellid ychwanegu llawer hefyd at gynnyrch y tir. Er mwyn adfer y gymdeithas wledig a chynhyrchu mwy o'r tir, rhaid rhoi blaenoriaeth i amaethyddiaeth a gwella'n fawr gyfleusterau'r rhannau gwledig. Byddai polisi beiddgar a ddeffroai ddychymyg y wlad, yn gwneud llawer i gryfhau Cymru yn ddiwylliannol a chymdeithasol.

69. A ellir adfer y bywyd gwledig a diwydiannol heb newid y drefn wleidyddol?

Ni ellir gwneud dim effeithiol heb gydnabod bod Cymru yn wlad a'i rheoli fel un gymdeithas. Ei rhannu a wnaeth y Llywodraeth Seisnig gyda'i byrddau trydan, glo a thrafnidiaeth, ac ymosododd ar ei thir a'i chymdeithas trwy ei Swyddfa Ryfel, Bwrdd Trydan neu Gomisiwn Coedwigo. Nid ystyria ei mesurau anghenion y genedl Gymreig.

Mae'r amgylchiadau yng Nghymru yn wahanol i rai Lloegr, nid yn unig am fod cenedl wahanol yn trigo yma; mewn amaethyddiaeth, er enghraifft, y mae gwahaniaethau mawr rhwng Cymru a Lloegr yng nghymeriad y tir, y tywydd, maint y ffermydd a nifer y gweision. Rhaid felly wrth y gallu i lunio polisi addas yng Nghymru, yn ogystal a'i weinyddu yng Nghymru. Ni fedd Cymru awdurdod i wneud dim, ac ni wnaeth na'r Dydd Cymreig, na Chyngor Ymgynghorol na Gweinidog i Gymru fwy na dangos nad oes meddyginiaeth heb drosglwyddo galluoedd deddfwriaethol i Senedd Gymreig.

70. A fedrai Bwrdd Trydan Cymreig ddwyn trydan i bob fferm?

Dywed y byrddau presennol na ellir dwyn trydan i bob rhan o'r wlad am ei bod mor fawr a mynyddig. Soniant am gostau dosbarthu trydan mewn ardaloedd gwledig fel rhai afresymol o uchel, sy'n gwahardd datblygiad llwyr. Esgus yw hyn dros gadw Cymru yn ôl. Mae'r sefyllfa mewn gwledydd bychain eraill, megis Denmarc a Norwy, lawer gwell nag yng Nghymru. O ran ei harwynebedd y mae Denmarc bedair gwaith cymaint a Chymru. Y mae Norwy hefyd yn llawer iawn mwy na Chymru -1,000 o filltiroedd ar ei hyd - ac yn fwy mynyddig: er hynny, cysylltwyd 72 % o ffermydd Norwy a thrydan. A thrydan Norwy yw'r rhataf yn holl wledydd y byd.

71. A allai Cymru rydd roddi gwasanaethau cyhoeddus da?

Nid "rhodd" am ddim yw'r grantiau Llywodraeth a geir gan ein hawdurdodau lleol. Y mae Cymru'n talu'n hallt mewn trethiant uniongyrchol am bob ceiniog a dderbynnir yn ôl mewn grant. Y mae cyflwr y ffyrdd yng Nghymru yn waeth o

lawer nag yn Lloegr. Y mae mwy o faich cynnal yr heolydd yn disgyn ar awdurdodau lleol Cymru am mai'r trethi lleol a dal am gyfartaledd uchel ohonynt. A yw hyn y deg?

Ysgolion: Telir grantiau arferol addysg yn ôl nifer y plant. Y mae poblogaeth Lloegr yn 668 y filltir sgwar. Yng Nghymru, nid yw ond 300. Ar gyfartaledd felly yehwanegir at rantiau addysg yn Lloegr, ar draul Cymru. Ond y mae Cymru yn talu yr un trethi yn union a Lloegr.

Llywodraeth Leol: Cyfyngodd Llywodraeth ar gyfrifoldeb a hawl y cynghorau lleol i godi arian ond drwy'r dreth leol. Ni ellir cynnal gwasanaethau cyhoeddus da ar y dreth leol yn unig. Y mae gormod o arian yn mynd i Drysorlys Lloegr o Gymru, a rhy fach yn mynd i gronfa'r awdurdodau lleol. Polisi Plaid Cymru yw ehangu a datblygu cyfrifoldeb yr awdurdodau lleol.

72. A allai Cymru dan hunan-lywodraeth dalu pensiynau. etc. boddhaol?

Fel y dangoswyd eisoes y mae Cymru yn wlad gyfoethog, a gallai'n hawdd nid yn unig gynnal ei safon byw presennol, ond rhagori arno, pe caem hunan-lywodraeth.

Gallai Cymru rydd yn rhwydd ddyblu pensiynau i hen bobl.

Cymerwch un enghraifft, sef New Zealand, gwlad sydd a'i phoblogaeth yn llai na Chymru.

			Poblogaeth
Cymru	..	..	2.640,632
New Zealand		..	2.414,064

		Safonol y pen	Pensiwn Henoed Gwr a gwraig
Cymru ..	..	67/6	£5 9s. Oc.
New Zealand	..	95/-	£8 10s. Oc.

10 - CYDWEITHREDIAD DEMOCRATAIDD

73. A yw Plaid Cymru yn Sosialaidd, Rhyddfrydol neu Geidwadol?

Anela at gyfiawnder cymdeithasol, ond ymwrthyd a sosialaeth wladwriaethol; ceisia ryddid i'r person unigol ac i'r genedl, ond ni fyn "laissez-faire" y Rhyddfrydwyr; cred yng ngwerth traddodiad, ond gwyrthwyneba gyfalafiaeth. Felly, ceir amcanion yn gyffredin rhyngddi a'r Pleidiau Seisnig, ond y mae gwahaniaethau pwysig hefyd. Ei chred sylfaenol yw yng ngwerth y person unigol, ac amcan llywodraethol ei pholisi yw sicrhau bywyd helaethach iddo Mewn gweriniaeth gydweithredol Gymreig y caiff y cyfte gorau, a sefydlu'r fath weriniaeth yw amcan Plaid Cymru.

74. A yw Plaid Cymru yn Doriaidd neu Gomiwnyddol, yn Ffasgaidd neu Syndicalaidd ?

Rhoddwyd yr enwau hyn oll arni, a llawer mwy. Arfer ei gelynion yw dewis y disgrifiad a gasant fwyaf, a'i luchio ati. Ond Plaid werinol o Gymry ydyw, a saif dros les y genedl gyfan ac nid yn unig dros ryw ran ohoni.

75. Pa beth a wneid a'r diwydiannau a genedlaetholwyd?

Trosglwyddid y rhain yn naturiol i'r Llywodraeth Gymreig, ond ni byddai'n rhaid iddi lynu wrth y dull presennol o reoli. Byddai ganddi fwy o ryddid i arbrofi nag sydd gan y Llywodraeth Seisnig. Ni wrthwynebodd Plaid Cymru reolaeth gyhoeddus arnynt, ond gwrthwynebodd y rheolaeth ganolog a gafwyd. Mynnai fentro ar ffurfiau cydweithredol ar reolaeth a ychwanegai at urddas y gweithiwr trwy roddi mwy o gyfrifoldeb iddo.

76. A ellir trefnu Undebau Llafur ar sail Gymreig?

Fe ellir ac fe ddylid. Cred Plaid Cymru mai colled i weithwyr Cymreig ac i'w gwlad yw bod canolfannau rhan fwyaf yr Undebau Llafur y tu allan i Gymru. Dylai Undebau Llafur fod yn nerth i'r bywyd cenedlaethol yn ogystal ag yn amddiffynfa i'w haelodau, ac mewn llawer gwlad fach werinol rydd, gwnant gyfraniad mawr i fywyd yr holl gymdeithas. Nid oes ddim i'w rhwystro wedyn rhag cydweithredu'n agos ag Undebau gwledydd eraill yr ynysoedd hyn.

Felly, pan benderfynwyd uno Ffederasiwn Glowyr De Cymru â'r Undeb Seisnig, gwrthwynebwyd cam mewn ymgyrch gan Blaid Cymru. Ar y llaw arall, cafodd yr athrawon a'r ffermwyr, a ffurfiodd Undebau Cymreig, ei chefnogaeth lwyr.

Mae angen mwy nag Undebau unigol ar sail genedlaethol. Dylent hefyd ddod at ei gilydd mewn Cyngres Undebau Llafur, hithau yn cydnabod undod ac amgylchiadau arbennig y genedl. Rhoddai Cyngres Undebau Llafur Cymreig reolaeth fwy uniongyrchol i weithwyr Cymru dros amodau eu gwaith; byddai'n

gadernid i'r gymdeithas Gymreig; ac arweiniai Gymru i gymryd ei lle priodol ym materion cydwiadoillafur.

77. A fynnech genedlaetholi'r tir?

Byddai hyn yn ddrwg mawr i'r bywyd cymdeithasol ac i lwyddiant amaethyddiaeth. Cred Plaid Cymru yng ngwerth eiddo personol, a myn weld pawb yn meddu ar ddigon i roddi annibyniaeth iddo. Y mae pobl a fedd ar eiddo yn debycach o sefyll ar eu gwadnau gerbron y Wladwriaeth na phobol sy'n ddibynnol ar y Wladwriaeth am bob dim. Felly, dymuna weld y dynion a weithia'r tir yn berchen ar eu daliadau eu hunain, ac ymwrthyd a landlordiaeth y Wladwriaeth a'r cyfoethog fel ei gilydd. Amcana at ymgorffori'r egwyddor gydweithredol fwyfwy mewn amaethyddiaeth fel mewn diwydiant.

78. Paham y mynnwch weld Cymru yn fwy hunan-gynhaliol?

Pwysodd Plaid Cymru am hyn trwy'r blynyddoedd. Gorau po fwyaf amrywiol y bydd y diwydiannau a'r galwedigaethau sydd gennym; afiach yw'r ddibyniaeth ar ychydig bach ohonynt. Dylem wneud yng Nghymru lawer o'r pethau a fewnforiwn heddiw.

Gorau hefyd po fwyaf o fwyd a gynhyrchwn gartref, er ein hiechyd corfforol, cymdeithasol ac economaidd, ac er mwyn helpu'r byd yn ei angen mwyaf. Mae hyn yn cael ei gydnabod yn barotach erbyn heddiw. Ac yn olaf, gorau po leiaf o'r gystadleuaeth am farchnadoedd ac allforion a welir rhwng y gwledydd, gan fod hyn yn elfen mor amlwg yn achosion rhyfel. Os yw masnach dramor i fod yn gyfarthrach heddychlon a bendithiol, gorau po fwyaf a wna pob gwlad o'i hadnoddau.

79. A ydych yn elyniaethus i'r Wladwriaeth?

Mynnwn weld Gwladwriaeth Gymreig, ond mae'n hanfodol cadw'r offeryn hwn yn ei le. Gwas yw'r Wladwriaeth, ond wrth ychwanegu yn anfeirniadol at ei alluoedd, tyf yn feistr. Rhaid datganoli ei alluoedd gymaint byth ag sydd modd, gan wasgaru cyfrifoldeb yn eang yn hytrach na'i grynhoi mewn ychydig ddwylo. Fel rhan o'r polisi hwn gellir ychwanegu mwy at alluoedd y cynghorau lleol, a meithrin y llu o gymdeithasau sy'n rhan o'r genedl. Mae hyn yn fwy posibl mewn gwlad a rydd les ei phobl yn gyntaf nag mewn gwlad a ddarostynga bob peth i allu milwrol.

80. Paham y gosodwch gymaint o bwys ar ddatganoli?

Ffasgiaeth yw'r gred mai'r Wladwriaeth biau'r person unigol. Deil Plaid Cymru mai cymdeithas o gymdeithasau yw'r genedl, ac “nad oes gan y Wladwriaeth haw I foesol o gwbl i dreisio hawliau'r cymdeithasau hyn.” Ymwrthyd y Blaid hefyd a'r ddysgeidiaeth “mai'r dosbarth yw'r uned gymdeithasol naturiol, ac mai ail bethau yw teulu, bro, gwlad a chenedl.” Ni chredwn mai bod yn bastwn dosbarth yw natur hanfodol gwladwriaeth. Gan na chredwn yn y dotalitariaeth, pa un ai o'r Dde ai o'r Chwith, sy'n llyncu'r person unigol a'r cymdeithasau llai, nac yn y gyfalafiaeth a wna ddyn yn offeryn, mynnwn ddatganoli awdurdod a gwasgaru eiddo er mwyn cryfhau safle'r rhain, gan ofalu am iechyd gwreiddiau cymdeithas.

“**Y DDRAIG GOCH"**
a ddyry arweiniad i bob Cymro ar faterion o bwys i'w gened!.
Papur Misol Plaid Cymru 6ch, y mis, 7/6 y flwyddyn trwy'r Post.

Egwyddorion Cenedlaetholdeb
gan y Dr. R. TUDUR JONES, 1/-.

Seiliau Hanesyddol Cenedlaetholdeb Cymru
Darlithiau gan 6 o wyr amlwg y genedl, 7/6,

Y Bod Cenhedlig
Cyfieithiad o'r clasur Gwyddelig 'The National Being' gan 'AE - y cyfieithiad a rhagymadrodd helaeth gan D. J. WILLIAMS, 12/6.

Rhestr lawn o'r Cyhoeddiadau, Ffurlenni Ymaelodi etc.. o

PLAID CYMRU
8 QUEEN STREET, CAERDYDD

Cyhoeddwyd gan Emrys Roberts, Trefnydd ac Ysgrifennydd, Swyddfa Plaid Cymru, 8 Queen Street, Caerdydd, ar Argraffwyd gan Gwmni Argraffu Pentre

---

Dyddiad Cyhoeddi 1958, Plaid Cymru. Caerdydd
Pamffled 23 tudalen
Awdur: Gwynfor Evans